YMDDIRIEDOLAETH natur WILDLIFE TRUST
South and West Wales
De a Gorllewin Cymru

island friends®

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Anturiaethau a Chwedlau Cymru Wyllt

TEITHIAU
www.welshwildlife.org/adventures

TUA'R GORLLEWIN!

Bydd y daith hon yn mynd â chi i arfordir trawiadol Gorllewin Cymru ac yn cynnig cyfle i chi fwynhau'r bywyd gwyllt rhyfeddol mae'r ardal hon yn ei ddenu.

YR AMSER GORAU: Mawrth – Hydref (Diwedd Mawrth – Gorffennaf i weld y Palod, yr hydref i weld cenawon y Morloi)

1. CEINEWYDD – CANOLFAN BYWYD GWYLLT Y MÔR BAE CEREDIGION

Bydd eich antur yn dechrau gydag ymweliad â thraethau euraid a harbwr heddychlon Ceinewydd, yng nghalon Bae Ceredigion. Cewch godi cestyll tywod ar y traeth a chael pysgod a sglodion ar wal yr harbwr cyn ymweld â Chanolfan Bywyd Gwyllt y Môr Bae Ceredigion, ble cewch yr holl wybodaeth am Ddolffiniaid Trwyn Potel enwog y bae. Wedyn cewch fynd ar drip cwch gyda Thripiau Cwch i Arolygu Dolffiniaid i fod yn agos at y creaduriaid rhyfeddol hyn yng nghwmni aelod o Dîm Morol yr Ymddiriedolaeth Natur. Bae Ceredigion yw un o'r llefydd gorau yn y DU i weld Dolffiniaid Trwyn Potel, felly dyma brofiad cwbl hanfodol! Peidiwch â'i golli!

2. CASTELL ABERTEIFI – CANOLFAN NATUR CYMRU

Nesaf, ewch i'r de i lawr yr arfordir i dref Aberteifi, gan fwynhau gweld y castell sydd wedi'i adnewyddu yng nghanol y dref, cyn mynd allan o'r dref fymryn i warchodfa natur ragorol Corsydd Teifi a Chanolfan Natur Cymru. Dyma gartref i Las y Dorlan, Hebogau Tramor, Dyfrgwn, Aderyn y Bwn, Ceirw Coch a llawer o rywogaethau eraill ac mae'n lle rhyfeddol i'w archwilio. Yn yr haf, efallai y gwelwch chi ein Byffalo Dŵr sy'n byw ar y safle. Ewch i'r ganolfan i weld yr arddangosfeydd addysgol, i fwynhau'r bwyd cartref ac i brynu anrhegion. Os ydych chi eisiau ymestyn eich antur, beth am logi canŵ a rhwyfo i lawr ceunant yr afon. Mae'r ganolfan yn cynnal gweithgareddau a digwyddiadau rheolaidd i deuluoedd, gan gynnwys archwilio pyllau, crefftau a theithiau tywys.

Am brofiad cwbl arbennig, beth am aros yn Oak Tree Cottage (Y Cwtch), ein bwthyn bach ni yng nghalon y warchodfa natur.

3. PENTRE IFAN – TYDDEWI

Ewch ymhellach i'r de heibio i Abergwaun a thuag at ddinas leiaf y DU, Tyddewi. Ar y ffordd, gwyrwch fymryn oddi ar y llwybr i ymweld â siambr gladdu neolithig hynafol Pentre Ifan. Ar ôl cyrraedd Tyddewi fe welwch chi siopau gyda chynnyrch lleol, orielau, gan gynnwys Oriel Y Parc sy'n cynnal arddangosfeydd o bwys cenedlaethol, ac wrth gwrs yr Eglwys Gadeiriol enwog a Phlas yr Esgob. Archwiliwch yr Eglwys Gadeiriol a'r tiroedd cyn mynd i weld atyniadau eraill yr ardal. Cofiwch am Fferm Drychfilod Dr Beynon i ddysgu am bryfed a thrychfilod anhygoel (ac am gyfle i flasu byrger pryfed!), ewch i draeth hudolus White Sands, neu gyda phlant hŷn rhowch gynnig ar Arfordiro - cafodd y gamp yma ei dyfeisio yn Nhyddewi - am antur llawn adrenalin.

4. LOCKLEY LODGE – YNYS SGOMER

Dyma un rhan o'ch trip chi i Orllewin Cymru sy'n gwbl hanfodol. Ewch i Ganolfan Ymwelwyr Lockley Lodge, ar un o'r penrhynau mwyaf De Orllewinol yng Nghymru, i gychwyn ar siwrnai fythgofiadwy. Prynwch eich tocyn ac ewch ar siwrnai 15 munud mewn cwch i Ynys Sgomer ble cewch gyfle i weld un o'r poblogaethau mwyaf gogoneddus o adar môr yn y byd. Rhwng diwedd mis Mawrth a mis Gorffennaf fe welwch chi yma filoedd o Balod Atlantaidd, Gwylogod, Llursod, Adar Drycin y Graig, Gwylanod Coesddu a mwy, a hefyd, yn aml iawn, bydd posib gweld morloi llwyd, llamhidyddion a Dolffiniaid Cyffredin yn y dyfroedd o amgylch yr ynys. Yn ystod mis Mai, mae'r ynys yn garped o glychau'r gog a gludlys ac, yn yr hydref, gellir gweld cenawon hoffus y morloi. Os oes gennych chi ddigon o amser, archebwch i aros dros nos ar yr ynys, i gael cyfle i weld a chlywed cannoedd ar filoedd o Adar Drycin Manaw'n cyrraedd yn ôl i'w tyllau ar ôl iddi dywyllu.

5. CASTELL PENFRO – DINBYCH-Y-PYSGOD – PARC BYWYD GWYLLT MANOR

Nesaf mae'n amser am ychydig o hanes. Croeswch Afon Cleddau ac ewch i gyfeiriad tref hanesyddol Penfro, sy'n gartref i Gastell Penfro, un o'r cestyll mwyaf aruthrol yng Nghymru, a man geni Brenin Harri'r VII (Harri Tudur), a orchfygodd Richard III ym Mrwydr Bosworth. Dringwch waliau'r castell ac ewch i'r daeargelloedd cyn crwydro i lawr yr afon i weld ieir dŵr ac elyrch. Wedyn ymlaen i dref glan y môr Dinbych-y-pysgod gyda'i thraethau hardd, siopau, bwytai ac atyniadau teuluol. Gerllaw fe welwch chi gyrchfan olaf yr antur yma, Parc Bywyd Gwyllt Manor, mewn 52 erw o barcdir yn Sir Benfro. Dyma barc sy'n cael ei redeg gan y cyflwynydd teledu a ffrind i'r Ymddiriedolaeth Natur, Anna Ryder-Richardson. Yma cewch weld swricatiaid, rhinoseros, teigrod, walabïaid, lemyriaid a llawer mwy o greaduriaid anhygoel o bob cwr o'r byd.

DRAW I'R DWYRAIN!

Ewch ati i archwilio hanes a bywyd gwyllt rhyfeddol De a Dwyrain Cymru

YR AMSER GORAU: Drwy gydol y flwyddyn

1. TAF FECHAN – CASTELL COCH – PARC SLIP

Dechreuwch eich antur drwy fynd am dro yng ngwarchodfa natur Taf Fechan gerllaw tref ddiwydiannol hanesyddol Merthyr Tudful. Mae'r ceunant calchfaen coediog a dramatig yma'n gartref i Ddyfrgwn, Moch Daear, ystlumod ac adar fel Bronwen y Dŵr, y Siglen Lwyd a'r Hwyaden Ddanheddog. Ewch am dro ar hyd y llwybr pren gerllaw i ganfod creaduriaid sy'n byw mewn pyllau, fel Gweision y Neidr a Mursennod.

Nesaf ewch i lawr yr A470 i gastell hudolus Castell Coch (CF15 7JS), ar lethr coediog gyda'i dyrrau canoloesol a'i du mewn trawiadol wedi'i baentio'n hardd. Mae fel camu i fyd arall. Os hoffech dreulio mwy o amser yn archwilio cestyll Cymru yn yr ardal yma, mae Castell Caerffili gerllaw yn werth ei weld hefyd. Oddi yma, ewch ryw ychydig i lawr yr M4 i gyffordd 36 a dilynwch yr arwyddion am warchodfa natur Parc Slip Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, ble gwelwch chi warchodfa ryfeddol i'w harchwilio, gyda choetiroedd, glaswelltiroedd a phyllau. Yma mae posib gweld Cornchwiglod, creaduriaid pwll, adar y coetir, Gwartheg yr Ucheldir a mwynhau hanes y safle. Galwch i mewn yng nghaffi'r Canolfan Ymwelwyr am fwyd a byrbrydau blasus.

Mae Parc Slip yn fwy na dim ond safle bywyd gwyllt, mae hefyd yn rhan o lein reilffordd Dyffryn Llynfi a Phorthcawl, a wasanaethai'r diwydiannau glo a haearn yn yr ardal. Ewch am dro ar hyd y llwybr rheilffordd hanesyddol yma i ddarganfod hanes diwydiannol cyfoethog yr ardal. Ymhlith yr atyniadau eraill yn yr ardal mae Canolfan Siopa Brandiau o Bwys Pen-y-bont ar Ogwr a Chanol Dinas Caerdydd gyda'i siopau, y castell a lleoliadau celfyddydol.

2. RHAEADR MELIN CWRT – ABERTAWE – PENRHYN GŴYR – COED GELLI HIR

Dechreuwch y diwrnod gydag ymweliad â safle hudolus Rhaeadr Melincwrt – y rhaeadr 80 troedfedd yma yw canolbwynt y warchodfa o goetir sydd â charped o glychau'r gog ym mis Mai ac sy'n gartref i Fronwen y Dŵr, y Tingoch a'r Gwybedog Brith.

Nesaf i Fae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, sy'n cynnig rhai o'r tirluniau, y traethau, y coetiroedd a'r bywyd gwyllt mwyaf trawiadol yn y DU. Stopiwch yn y Mumbwls am hufen iâ enwog Abertawe, Joe's Ice Cream, a chrwydrwch ar hyd y pier ac wedyn allan o amgylch penrhyn Gŵyr i ddarganfod traethau enwog fel Bae Rhosili, Oxwich, Caswell a Three Cliffs. Stopiwch yng Nghanolfan Dreftadaeth y Gŵyr a Choed Gelli Hir, un o'n gwarchodfeydd, sy'n gartref i Bathewod, Gweilch Glas, Tylluanod Brech, Gweision y Neidr a Mursennod.

3.CASTELL A CHOED DINEFWR – COEDWIG TYWI – Y GANOLFAN OGOFÂU ARDDANGOS GENEDLAETHOL

Ewch i dref fechan hardd Llandeilo, gyda'i siopau a'i chaffis hyfryd ac unigryw, a dilynwch yr arwyddion am Barc Dinefwr. Dyma safle castell godidog, yn uchel uwch ben dyffryn yr afon gyda golygfeydd gwych ar draws cefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Archwiliwch y Castell, tŷ Dinefwr a'r coetir hynafol rhyfeddol gyda'i llwybr pren ar godiad, pyllau a chuddfannau. Edrychwch am gnocell y coed, y tingoch a'r brid prin o ddo byw ar y stad. Os oes gennych chi amser, beth am fynd yn eich blaen tua'r gogledd drwy ddyffrynnoedd garw i Goedwig Tywi gyda'i cheunentydd creigiog trawiadol a'r coed o glychau'r gog. Cewch weld y Barcud Coch yn hedfan i'r entrychion, y Gwybedog Brith ac, os byddwch chi'n ffodus, efallai y gwelwch chi un o Wiwerod Cochion prin canolbarth Cymru. Hefyd yn yr ardal hon ceir cannoedd o lwybrau cerdded a beicio yn ardal drawiadol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a'r Ganolfan Ogofâu Arddangos Genedlaethol gyda'i labyrinth tanddaearol o ogofâu, ei harddangosfeydd o ddeinosoriaid a'r Ganolfan a'r Fferm Ceffylau Gwedd.

1
Ceinewydd
Canolfan Natur Forol Bae Ceredigion
2
Aberteifi
Canolfan Natur Cymru a Gwarchodfa Natur Corsydd Teifi
Pentre Ifan
3
Ynys Dewi
Tyddewi
Hwlffordd
4
Sgomer
Skokholm
Canolfan Ymwelwyr Lockley Lodge
Castell Penfro
5a
5b
Parc Bywyd Gwyllt Manor
Dinbych-y-pysgod
Ynys Bŷr
6
Caerfyrddin
Castell a Choed Dinefwr
7a
7b
Coedwig Tywi
Coflwch am ein
Creaduriaid Bonws
www.welshwildlife.org/adventures
Canolfan Arddangosfa Ogofâu Genedlaethol
8
Gwarchodfa Natur Rhaeadr Melin Cwrt
9
Coed Gelli-Hir
Abertawe
Gwarchodfa Natur Taf Fechan
10
Castell Coch
Gwarchodfa Natur a Chanolfan Ymwelwyr Parc Slip
Caerdydd
TAITH FAWR CYMRU WYLLT
Os ydych chi eisiau gweld y cyfan, beth am gyfuno teithiau Tua'r Gorllewin a Draw i'r Dwyrain am wyliau hirach. Rydym yn awgrymu eich bod yn aros mewn dwy ganolfan, un yn y Dwyrain ac wedyn un yn y Gorllewin, i fanteisio i'r eithaf ar eich antur.
YR AMSER GORAU: Mawrth - Hydref (Diwedd Mawrth - Gorffennaf i weld Palod, yr hydref i weld cenawon y Morloi)
TAITH FAWR
12-14 diwrnod
CYFANSWM
O 350A - 353B MILLTIR
Cliciwch yma am y cyfarwyddiadau
route a
route b
West
East

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Mae'r prosiect wedi cael ei gyllido drwy gyfrwng Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth Llywodraeth Cymru sy'n ceisio annog syniadau newydd ac arloesol am gynnyrch mewn partneriaeth, i gael mwy o effaith a denu mwy o ymwelwyr.

www.welshwildlife.org/adventures